



Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol Cymru

30 Awst 2022

Annwyl Gydweithwyr

Hoffwn eto rannu nifer o astudiaethau achos gyda chi sydd wedi dod i'n sylw gan sefydliadau'r GIG am yr hyn y maent yn falch ohono. Caiff y rhain eu rhannu yn ein Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru misol.

Mae'r uchafbwyntiau o bob sefydliad wedi'u rhestru isod.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Mae **sganiau MRI amser gwely** wedi cael eu cyflwyno ar gyfer plant yn Ysbyty Brenhinol Gwent, gan leihau ôl-groniadau rhestrau aros ac osgoi lle mae'n bosibl ddibyniaeth ar gymorth Anesthetig Cyffredinol / tawelyddu ar gyfer Sganiau MRI. Y syniad sydd y tu ôl i'r fenter yw bod plant yn dod i'r ysbyty amser gwely ac felly'n gysglyd pan fydd y sgan MRI yn digwydd. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y sgan yn llwyddiannus.
- Mae **map ar-lein newydd** wedi cael ei lansio i helpu pobl yng Nghasnewydd i ddod o hyd i ffyrdd o wella eu lles. Mae'r teclyn ar-lein am ddim '*EichCasnewydd*' yn cynnig y canlynol i bobl leol:
 - Pob gweithgaredd lles lleol sydd ymlaen mewn un lle, gan restru dros 70 o weithgareddau, gyda rhagor yn cael eu hychwanegu
 - Help a chynghor ar sut i gymryd mwy o ran yn yr holl bethau gwych sy'n digwydd ar draws y ddinas
 - Gwybodaeth am wasanaethau cymorth lleol mewn meysydd fel iechyd meddwl, cymorth tai, a chymorth ariannol
 - Mae'r map yn hwyl, am ddim, yn hawdd ei ddefnyddio, ac ar gael mewn 103 o ieithoedd gwahanol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Mae **tair Canolfan Gofal Sylfaenol Brys newydd** wedi agor ar draws Gwynedd a Môn i helpu i leihau pwysau ar feddygon teulu ac Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd. Mae tîm sy'n cynnwys Ymarferwyr Nyrsio Uwch, Meddygon Teulu a Ffisiotherapyddion yn cydweithio i ddarparu gofal i bobl a geisiodd gael gofal gan eu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Meddyg Teulu neu'r Adrannau Achosion Brys. Bydd cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yn cael ymgynghoriad dros y ffôn gyda Chlinigwr Canolfan Gofal Sylfaenol Brys. Os yw'n briodol bydd cleifion yn cael eu gwahodd i fynychu apwyntiad wyneb yn wyneb yn un o'r Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys.

- **Mae cynllun sy'n caniatáu i deuluoedd a gofalwyr gefnogi pobl sydd â dementia** tra'u bod mewn lleoliadau gofal iechyd yn cael ei ailgyflwyno. Mae Ymgyrch John yn ymgyrch genedlaethol sy'n cydnabod rôl bwysig aelodau o'r teulu sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a phobl ag anghenion cymhleth gan gynnwys anabledau dysgu ac awtistiaeth. Mae'n caniatáu i'r gofalwr neu'r aelod o'r teulu fod yn bresennol yn ystod gofal cyffredinol ac amser bwyd y tu allan i oriau ymweld, a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- Mae **Gwasanaeth Genomeg Seiciatrig Cymru Gyfan** wedi cael ei lansio. Y fenter gyntaf o'i math yn y DU yw hon a gynlluniwyd i ddarparu cwnsela genetig a mynediad at brofion genetig i bobl sy'n enedig yn fwy tebygol o brofi anhwylder iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth cenedlaethol arloesol hwn yn cael ei hwyluso gan bartneriaeth amlweddol o arbenigwyr o Wasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan, Canolfan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig ym Mhrifysgol Caerdydd, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG, ac aelodau o'r cyhoedd.
- **Mae'r babi cyntaf wedi cael ei eni yng Nghymru gan ddefnyddio technoleg newydd nwy ac aer sy'n ystyriol o'r hinsawdd.** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi gweithio'n agos gyda chleifion a staff ar weithredu Unedau Lleihau Carbon Entonox. Mae prosiect Entonox yn rhan o weithgaredd ehangach er mwyn lleihau'r defnydd o ocsid nitrus ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- **Y Bwrdd Iechyd yw'r cyntaf yng Nghymru i ymuno mewn partneriaeth gyda CRADLE.** Bydd elusen CRADLE yn darparu bagiau cysur i fenywod sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty am arosiadau annisgwyl neu dros nos yn ystod neu'n dilyn colli beichiogrwydd neu derfynu beichiogrwydd. Bydd y gwasanaeth colli beichiogrwydd a chymorth ychwanegol gan CRADLE yn gweithio ochr yn ochr gyda'r cymorth profedig aeth arbenigol sydd ar waith ar draws Gwasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd, gan gefnogi menywod a theuluoedd mewn cyfnod mor anodd.
- Mae ysbyty Tywysoges Cymru wedi cynnal interniaid drwy **interniaeth Engage to Change a gefnogir gan Project SEARCH.** Mae'r prosiect yn cael ei weithredu mewn partneriaeth rhwng Engage to Change, DFN Project SEARCH, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm-Taf Morgannwg, a'i nod yw herio agweddau a pholisi ar gyflogaeth gefnogol i bobl sydd ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

- **Mae gwasanaethau canser y colon a'r rhefr yn elwa o ddangosfwrdd newydd** sydd wedi cael ei lansio. Bydd y dangosfwrdd yn nodi tueddiadau o ran canser y colon a'r rhefr ac yn galluogi clinigwyr yng Nghymru i addasu gwasanaethau ar gyfer gwell gofal i gleifion. Gan ddefnyddio data o sawl ffynhonnell, bydd yn caniatáu i glinigwyr ym myrddau iechyd Cymru nodi'n hawdd feysydd sy'n gofyn am newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn lleihau amseroedd aros neu i leddfu rhwystrau gwasanaethau.

- Enillodd Claire Osmundsen-Little, **Cyfarwyddwr Cyllid Iechyd a Gofal Digidol Cymru deitl 'Arweinydd Cyllid y Flwyddyn'** yng Ngwobrau Swyddogaeth Cyllid Digidol.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

- Datblygwyd rolau **Hwyluswyr Addysg Cartref Gofal** am y tro cyntaf yng Nghymru i annog mwy o fyfyrwyr gofal iechyd i ymgymryd â lleoliadau mewn cartrefi gofal.
- Mae **AaGIC yn noddi categori Menywod mewn Iechyd a Gofal yng Ngwobrau Womenspire**. Mae [Gwobrau Womenspire Chwarae Teg](#) yn dangos llwyddiannau rhyfeddol menywod ledled Cymru, gan ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

- **Ysbyty Bronglais yw'r cyntaf yn ardal Hywel Dda i gyflawni sgan MRI ar glaf sydd â rheolydd calon.** Mae datblygiadau diweddar ym maes technoleg delweddu a rheolyddion calon bellach yn caniatáu i gleifion sydd â rheolyddion calon a dyfeisiau cardiaidd eraill wedi'u mewnblannu gael eu sganio'n ddiogel gan MRI. Cynhelir yr archwiliad yn dilyn adolygiad gan Radiolegydd Ymgynghorol, Ffisiolegydd Cardiaidd, Radiograffydd MRI a gyda chefnogaeth wyddonol gan y Gwasanaeth Ffiseg Feddygol. Yn ystod y sgan, mae tîm gofal uwch yn bresennol i fonitro'r claf a sicrhau ei ddiogelwch.
- Mae **prosiect calon iach newydd** yn helpu cleifion yng Ngogledd Ceredigion sy'n cael cynnig cymorth seicolegol i'r rhai sydd mewn perygl o broblemau gyda'r galon. Nod y llwybr Seicoleg Iechyd Clinigol newydd hwn yw atal clefydau cardiofasgwlaidd a digwyddiadau cardiaidd rhag gwaethygu, gan gynnwys trawiad ar y galon a strôc.

Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru

- **Bu tîm Rhwydwaith Canser Cymru yn dathlu llwyddiant yng Ngwobrau Canser Moondance.** Roedd y seremoni wobrwyo, a gynhaliwyd ar 16 Mehefin yng Nghaerdydd, yn cynnig cyfle i'r tîm rwydweithio â thimau ledled Cymru, ailgysylltu, a myfyrio ar lwyddiannau ym maes gofal cancer yn ystod y Pandemig. Roedd yn anrhydeddu pobl ar draws GIG Cymru a'i bartneriaid, a wnaeth gynnal ac arloesi gwasanaethau cancer er gwaethaf amgylchiadau eithriadol y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yr Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol

- **Mae gwasgu 2 ar gyfer iechyd meddwl ar linell ffôn 111 y GIG** bellach yn fyw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i ddinasyddion at Glinigwr Iechyd Meddwl heb unrhyw rwystrau ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno ledled Cymru gydag un Bwrdd Iechyd bob mis yn mynd yn fyw gan gwmpasu Cymru gyfan erbyn diwedd y flwyddyn.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

- **Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi lansio eu Caffi Menopos cyntaf ar gyfer staff.** Ar hyn o bryd mae'r sesiynau ar-lein yn cael eu cynnal ar Microsoft Teams, maent yn anffurfiol a chyfeillgar ac yn agored i bawb am de a chacen rithwir a sgwrs am bopeth o ran menopos.

- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru bellach yn aelodau o'r **Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant**. Mae'r rhwydwaith hwn yn cefnogi sefydliadau yn eu taith cydraddoldeb a chynhwysiant ac yn darparu adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu, gan gynnwys mynediad at ddigwyddiadau am ddim a gostyngiadau ar gyrsiau.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- Cynhaliodd y **Sioe Frenhinol ddigwyddiad dathlu arbennig** ar 19 Gorffennaf ar gyfer staff a gwirfoddolwyr a oedd yn rhan o ymateb COVID-19 y sir drwy'r rhaglen frechu a'r cynllun Profi, Orlhain, Diogelu. Caeodd y ganolfan frechu ar faes y Sioe yn union wrth i'r pigladau atgyfnerthu yn y gwanwyn ddirwyn i ben, gydag ymhell dros 60,000 o ddosau wedi'u rhoi ar y safle ers iddo agor ym mis Ionawr 2021. Er mai dyma'r sir fwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru, gyda dim ond 133,000 o bobl mewn ardal o 2000 milltir sgwâr, Powys sydd wedi gweld rhai o'r lefelau uchaf o dderbyn pigladau atgyfnerthu'r gwanwyn yng Nghymru.
- Mae **atgyfeiriadau meddyg teulu electronig** drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru yn cefnogi rhyngweithredu trawsffiniol. Oherwydd lleoliad gwledig Powys a llwybrau gofal cleifion cymhleth, mae hyn yn gofyn am gysylltiadau gweithredol â holl fyrddau iechyd GIG Cymru, i nifer bach o ddarparwyr preifat, ac yn bwysig i gyflenwyr trawsffiniol yn system GIG Lloegr.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae'r Hwb Cymorth Profiad Niweidiol mewn Plentyndod yn **dysgu gwersi o'r gorffennol i wella profiad ffoaduriaid sy'n blant heddiw**. Mae'r Hwb wedi cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i gyhoeddi'r ail mewn cyfres o adroddiadau sy'n edrych ar brofiad ffoaduriaid sy'n blant o'r 1930au a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Mae Canolfan Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid, wedi datblygu **Canllawiau Iechyd Cyn-filwyr a Chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ar gyfer meddygfeydd yng Nghymru**. Datblygwyd y canllawiau gyda nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnwys RCGP Cymru, Arweinwyr Cyn-filwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Meddygon Teulu â diddordeb arbennig.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- Mae **clwb brechwast yn rhoi dos o les i'r rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol**. Mae'r prosiect lles yn cael ei ariannu'n rhannol gan Glwstwr Iechyd y Bae, sy'n cynnwys wyth meddygfa wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd Sgeti, Uplands, y Mwmbwls a Gŵyr, a'i nod yw mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ymhlith oedolion.
- Mae **gwasanaeth goleudy newydd** yn disgleirio ar draws Bae Abertawe i lywio teuluoedd i ffwrdd o'r peryglon o fod dros bwysau a thuag at ffordd fwy iach o fyw. I ddechrau mae Bae Abertawe yn cynnig gwasanaeth lefel dau, neu yn y gymuned, o'r enw rhaglen Teuluoedd Iach. Mae hyn yn cynnwys cwrs wyth wythnos sydd wedi'i anelu at rieni, ac yna sesiynau ymarferol sy'n canolbwyntio ar sgiliau coginio a sesiynau gweithgaredd corfforol llawn hwyl.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

- Cipiodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre **dair gwobr yng Ngwobrau mawreddog Canser Moondance**. Un o'r gwobrau a dderbyniwyd yng nghategori Dyfeisiau Arloesol oedd am gynnal Astudiaeth SYMPLIFY, sy'n edrych ar Brawf Gwaed Canfod Aml-Ganser yn Gynnar
- Cyflwynodd **Cymdeithas Bêl-droed Cymru wobwr gydnabyddiaeth arbennig i Wasanaeth Gwaed Cymru** ar 26 Mai 2022 am ei ymgyrch bartneriaeth gymunedol 'Gwaed, Chwys ac Iechyd Da'. Cafodd yr ymgyrch ei chreu i annog mwy o gefnogwyr i roi gwaed yn eu cymunedau lleol

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

- Mae Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi cyflwyno **teclyn ymgynghori dros y ffôn newydd** i helpu clinigwyr i drefnu'r gofal mwyaf priodol i alwyr 999. Mae'r feddalwedd Emergency Communication Nurse System (ECNS) yn cefnogi clinigwyr ystafell reoli i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu i gleifion sy'n galw 999 drwy ei ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae gwasanaeth newydd wedi lansio er mwyn caniatáu i bobl wneud **galwadau 999 gan ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL)** am y tro cyntaf. Bydd y gwasanaeth newydd, 999 BSL, yn caniatáu i bobl fyddar wneud galwadau brys gan ddefnyddio ap neu wefan, gan gysylltu galwyr â dehonglydd BSL. Y system yw'r tro cyntaf y bydd gwasanaeth brys 999 ar gael yn BSL. Mae'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ac yn gweithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services